**Manon Antoniazzi**
Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd
Chief Executive and Clerk of the Senedd

6 Tachwedd 2025

Elin Jones AS
Cadeirydd
Fforwm Cadeiryddion
Senedd Cymru

Annwyl Lywydd

**Adolygu Effeithiolrwydd Pwyllgorau yn y Chweched Senedd**

Diolch am y cyfle i gyflwyno tystiolaeth i adolygiad Fforwm y Cadeiryddion o Effeithiolrwydd Pwyllgorau yn y Chweched Senedd.

Lluniwyd y cyflwyniad, sydd yn yr atodiad, gan ddefnyddio barn broffesiynol, profiad ac arbenigedd swyddogion y Comisiwn ar faterion sy'n berthnasol i'r meysydd ffocws a nodwyd gan Fforwm y Cadeiryddion yn ei ymgynghoriad. Mae'n canolbwyntio'n benodol ar feysydd lle mae swyddogion yn credu y dylid ystyried newidiadau ar sail ein profiad ein hunain a dealltwriaeth o'r materion y mae Aelodau'n eu hwynebu (gan gynnwys adborth uniongyrchol).

Mae'r cyfraniad hwn yn cael ei gymhlethu gan y ffaith bod gan Gomisiwn y Senedd nifer o rolau amrywiol mewn perthynas â Phwyllgorau'r Senedd. Mae ganddo nifer o weithredoedd, gan gynnwys:

- cynghori ar weithdrefn seneddol a chefnogi gwaith craffu cadarn;
- hwyluso, gan ddarparu TGCh, seilwaith ffisegol a diogelwch i bwyllgorau eu defnyddio;
- bod yn destun gwaith craffu gan bwyllgorau, gan gynnwys ar ei gyllidebau drafft ei hun neu i gefnogi Biliau Aelod a Biliau Comisiwn y Senedd;
- bod yn gronfa o wybodaeth am waith perthnasol a wnaed gan Baneli Arbenigol, Comisiynau blaenorol ac ati.

Mae'r cyfraniad hwn yn cydnabod ac yn adlewyrchu'r gwahanol rolau a chyfrifoldebau hyn.

Mae Comisiwn y Senedd wrthi'n cynllunio ei gefnogaeth ar gyfer Aelodau a phwyllgorau yn y Seithfed Senedd ac mae'n croesawu'r adolygiad hwn ar effeithiolrwydd pwyllgorau ac yn edrych ymlaen at ymgysylltu ag argymhellion y Fforwm a chyfrannu at y gwaith o'u cyflawni.

Yn gywir,

**Manon Antoniazzi**
**Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd**
Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
Contact@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
Contact@senedd.wales
0300 200 6565

**Atodiad 1**

**Hoffai'r Fforwm wybod eich barn ar sut mae pwyllgorau'n canolbwyntio eu hamser e.e. deddfwriaeth, ymchwiliadau polisi, ymgysylltu â rhanddeiliaid, ystyried deisebau, a lefel y ffocws strategol a'r gwerthusiad mewn Pwyllgorau.**

1. Mae'r pwyllgorau yn y Senedd yn gweithredu'n annibynnol, gyda phob un yn llunio ei raglen waith ei hun yn ôl ei werthoedd a'i flaenoriaethau ei hun.

2. Yn ymarferol, mae amser yn adnodd cyfyngedig i bob pwyllgor yn y Senedd, a rhaid i bob un benderfynu ar y ffordd orau o flaenoriaethu ei ffocws a'i sylw, gan ymateb hefyd i ofynion ei gylch gwaith (er enghraifft, gofynion statudol a gofynion y Rheolau Sefydlog).

3. Ar ddechrau'r Seneddau diweddar, mae pwyllgorau wedi bod yn defnyddio cynlluniau strategol yn gynyddol i'w helpu i gyflawni eu cylchoedd gwaith, rheoli eu llwythi gwaith, penderfynu beth maen nhw am ei gyflawni a sut y byddant yn mesur cynnydd. Yn aml, byddant yn cael eu llywio drwy ymgynghori â rhanddeiliaid a'r cyhoedd, a gwaith craffu ac ymgysylltu cyffredinol â Gweinidogion perthnasol. Mae strategaethau o'r fath wedi cael eu hadolygu'n rheolaidd, er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn briodol i'r dirwedd bolisi sy'n newid.

4. Gwaith mwyaf effeithiol pwyllgorau yn aml yw rhai â ffocws da ac sydd wedi'u halinio'n strategol. Mae ymchwiliadau polisi yn tynnu sylw at feysydd sydd heb eu harchwilio'n ddigonol ac sydd â chwmpas da, gan alluogi craffu ystyrlon a chanlyniadau effeithiol. Fodd bynnag, mae hyn yn golygu bod angen defnyddio rhag-gyfarfodydd a chyfarfodydd preifat er mwyn galluogi cynllunio strategol, ffocws a gwerthuso, ac ymrwymiad gan yr Aelodau i flaenoriaethu'r sesiynau preifat hyn.

5. Mae ffocws pwyllgorau ar waith dilynol wedi cynyddu yn y Seneddau diweddar, sy'n eu galluogi i werthuso effaith eu gwaith. Mae lle i wella prosesau ymhellach ar gyfer olrhain argymhellion ac ymatebion y Llywodraeth i adroddiadau neu geisio diweddariadau ar argymhellion. Bydd hyn yn rhan o'n cyngor i bwyllgorau yn y Senedd nesaf.

6. Mae faint o amser y mae pwyllgor yn ei ddefnyddio ar graffu deddfwriaethol yn amrywio'n sylweddol rhwng gwahanol bwyllgorau. Mae hyd gwaith craffu deddfwriaethol hefyd wedi amrywio ar adegau, gyda darpariaeth ar gyfer Biliau Brys a thrafodion Biliau cyflymach, sy'n adlewyrchu nad yw gwaith craffu deddfwriaethol yn bodoli mewn gwactod, a bod oedi wrth basio deddfwriaeth yn arwain at ganlyniadau. Yn yr un modd, mae faint o amser sydd ar gael i bwyllgor i gynnal craffu deddfwriaethol yn dylanwadu'n ddirfawr ar effeithiolrwydd deddfwriaeth, ac fel y mae Llywodraeth Cymru wedi nodi yn flaenorol, "gallai gwaith craffu

aneffeithiol, yn ei dro, arwain at golli cyfleoedd, deddfwriaeth ddiffygiol neu ganlyniadau gwannach."[1]

7. Yn gyffredinol, ystyrir bod craffu deddfwriaethol o safon uchel. Gellir nodi ei bod yn arfer safonol yn ystod gwaith craffu Cyfnod 1 ar ddeddfwriaeth i bwyllgorau gynnal ymgynghoriadau cyhoeddus, sydd yn aml, ar hyn o bryd, yn destun amserlenni tynnach na'r rhai a nodir yng nghanllawiau'r Llywodraeth ar ymgynghoriadau cyfatebol.[2] Os ystyrir unrhyw newidiadau a fyddai'n effeithio ar y dyraniad amser i bwyllgorau gyflwyno adroddiad ar egwyddorion cyffredinol Biliau, byddai angen i Bwyllgor Busnes y Senedd ystyried goblygiadau cyfleoedd ystyrlon a hygyrch o'r fath a ddarperir yn ystod Cyfnod 1 i'r cyhoedd a rhanddeiliaid gyfrannu at graffu ar ddeddfwriaeth.

8. Ar adegau mae Llywodraeth Cymru wedi defnyddio camau diwygio i gyflwyno darpariaethau newydd sbon i Fil. Mae effaith hyn yn amrywio yn dibynnu ar natur y darpariaethau newydd, ond weithiau mae wedi golygu ail-ddrafftio Rhannau cyfan. Gall hyn greu heriau a chymhlethdod i swyddogion y Senedd gynorthwyo gyda gwaith craffu Aelodau ar faterion nad ydynt wedi'u hystyried yng Nghyfnod 1, yn ogystal ag ystyried derbyniadwyedd gwelliannau, gan gydbwyso hyn ochr yn ochr â chefnogi'r gwaith o ddatblygu gwelliannau'r meinciau cefn, yn aml i derfynau amser tynn iawn.

9. Efallai ei bod hefyd yn werth nodi, o safbwynt adnoddau'r Comisiwn ar gyfer cefnogi pwyllgorau, fod dull cynllunio hirdymor, ynghyd â'r gallu i ymateb yn rhagweithiol i faterion sy'n codi, wedi cynorthwyo Comisiwn y Senedd i reoli ei gefnogaeth i bwyllgorau. Er enghraifft, mae'n rhoi cyfle i nodi achlysuron lle gall nifer o bwyllgorau ganolbwyntio ar wahanol elfennau o faes polisi, a all greu heriau o ran capasiti i staff sydd ag arbenigedd yn y maes hwnnw, a allai fod rhaid iddynt gefnogi nifer o bwyllgorau, neu gynorthwyo i gynllunio cyhoeddiadau adroddiadau i wneud y mwyaf o ymgysylltiad â'r cyfryngau.

10. Bydd gallu'r Comisiwn i gynllunio ymlaen hyd eithaf ei allu yn bwysig yn dilyn y cynnydd yng nghapasiti'r Senedd i 96 o Aelodau. Bydd gan y Comisiwn adnoddau neu gapasiti cyfyngedig i gefnogi amgylchiadau lle mae sawl pwyllgor yn dymuno cyfarfod yn ffurfiol ar yr un pryd y tu allan i ystad y Senedd ac ati. Gall cynllunio ymlaen llaw mewn ffordd gydlynol ar draws pwyllgorau hefyd wella sylw yn y cyfryngau ac ymgysylltiad y cyhoedd, gan ei fod yn galluogi rheoli dyddiadau cyhoeddi adroddiadau.
11. Yn yr un modd, mae seilwaith ffisegol y Comisiwn yn adnodd cyfyngedig sy'n darparu ar gyfer cyfarfodydd pwyllgorau a gweithgareddau eraill ar ystad y Senedd, megis digwyddiadau a noddir gan Aelodau, gyda blaenoriaeth yn cael ei rhoi i fusnes y Senedd.

[1] Llywodraeth Cymru, Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau): Memorandwm Esboniadol, Para 38 **pri-ld16461-w.pdf**

[2] Er enghraifft, mae nodyn canllaw Llywodraeth Cymru, Ynghylch Ymgynghoriadau, yn nodi y bydd "fel arfer…yn caniatáu o leiaf 12 wythnos i randdeiliaid ymateb i ymgynghoriad, oni bai bod rheswm da dros beidio â gwneud hynny" ac "ein nod yw cyhoeddi adroddiad cryno o'r ymatebion ar ein gwefan…fel arfer o fewn 12 wythnos i ddyddiad cau'r ymgynghoriad." Ynghylch ymgyngoriadau | LLYW.CYMRU

12. Bydd manteision dull cynllunio strategol ar gyfer pwyllgorau yn cael eu cyfleu fel rhan o'r cymorth a'r briff a ddarperir i Aelodau newydd gan y Comisiwn. O ystyried gwerth sesiynau cynllunio strategol o'r fath, byddai'r Comisiwn yn dymuno annog pob pwyllgor i ymgymryd â chynllunio strategol strwythuredig ar ddechrau pob Senedd, gydag adolygiadau rheolaidd i addasu i flaenoriaethau a llwythi gwaith sy'n newid. Mae’r Comisiwn yn bwriadu cynnig gwaith hwyluso tebyg i gefnogi pwyllgorau ar ddechrau eu gwaith yn y Senedd nesaf. Byddai’r Comisiwn yn croesawu barn gan Fforwm y Cadeiryddion i lywio’r gwaith o flaenoriaethu cymorth cynefino a syniadau ynghylch y ffordd orau o wneud cynllunio strategol yn ddull safonol ar gyfer pwyllgorau.

**Hoffai’r Fforwm wybod a oes gennych farn ar naws a deinameg cyfarfodydd pwyllgorau ac ar rôl y Cadeirydd.**

13. Mae Cadeiryddion Pwyllgorau yn chwarae rhan hanfodol wrth ddylanwadu ar naws a deinameg cyfarfodydd pwyllgorau, gan gynnwys cynnal pwrpas cyffredin trawsbleidiol, tra’n cydnabod a pharchu y bydd Aelodau’n dod â gwahanol safbwyntiau gwleidyddol i’w gwaith. Bydd rôl Cadeirydd yn arbennig o bwysig yn y Senedd nesaf, gyda nifer sylweddol o Aelodau newydd, ac o bosibl Aelodau newydd fel Cadeiryddion, a fydd yn gofyn am ymdrechion cynnar gan Gadeiryddion a swyddogion i sefydlu normau gweithio effeithiol. Byddai sesiynau cynllunio strategol, fel y manylir uchod, hefyd yn rhoi lle i Aelodau drafod eu dewisiadau cyfarfodydd a’u dulliau gweithio dewisol.

14. Ers 2016, caiff cadeiryddion pwyllgorau eu hethol yn uniongyrchol gan y Senedd o dan Reol Sefydlog 17.2E. Ar ddechrau deiliadaeth pob cadeirydd, rhoddodd y Llywydd ddisgrifiad iddynt o'u cyfrifoldebau allweddol (atodiad 2), i'w cynorthwyo i ddeall cwmpas eu dylanwad a'u cyfrifoldebau i gydnabod cyfraniad allweddol y cadeirydd at waith effeithiol y pwyllgor.

15. Nododd y Panel Arbenigol ar Ddiwygio’r Cynulliad yn 2017:
*“Mae rôl cadeirydd pwyllgor yn hollbwysig i effeithiolrwydd y sefydliad ac mae’n waith beichus. Er enghraifft, mae’n cynnwys darparu cyfeiriad strategol i waith y pwyllgor a'i staff cymorth, a siarad ar ran y pwyllgor yn ystod busnes y Cynulliad, mewn digwyddiadau neu â’r cyfryngau.”*[3]

16. Bydd staff Comisiwn y Senedd yn gweithredu o dan gyfarwyddyd cadeiryddion pwyllgorau, gan ymateb yn hyblyg i faterion gweinyddol, logistaidd a materion eraill sy'n codi y tu allan i gyfarfodydd ffurfiol. Bydd staff yn ymgysylltu’n rheolaidd â rhanddeiliaid i hwyluso logisteg ac i gasglu gwybodaeth dechnegol, ond nid yw’r gefnogaeth hon yn disodli’r swyddogaeth graffu. Yn ei Memorandwm Esboniadol i Ddeddf Senedd Cymru (Aelodau ac

[3] Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad, Senedd sy’n Gweithio i Gymru, Tachwedd 2017

Etholiadau) 2024, cydnabu Llywodraeth Cymru y risg y byddai'n "amhriodol bod gan swyddogion sydd heb eu hethol ddylanwad gormodol o ran eu cyfrifoldeb."[4]

17. Mae swyddogion hefyd wedi nodi y gellir hwyluso naws a deinameg cyfarfodydd pwyllgor drwy sicrhau aelodaeth gyson, a gall newid yr aelodau yn sylweddol arwain at heriau. Byddai parhad o ran yr aelodaeth dros gyfnod o bedair blynedd o fudd i bob pwyllgor.

**Byddai'r Fforwm yn croesawu barn ar effeithiolrwydd y gwaith craffu ar bolisi a deddfwriaeth dan arweiniad un pwyllgor, ac a ddylai cylchoedd gorchwyl pwyllgorau fod yn drawsbynciol neu adlewyrchu portffolios Gweinidogion.**

18. Materion i'r Pwyllgor Busnes a'r Senedd gytuno arnynt yw penderfyniadau ynghylch a ddylai craffu ar bolisi a deddfwriaeth gael ei arwain gan un pwyllgor, neu eu gwneud ar wahân gan bwyllgorau polisi a phwyllgorau deddfwriaeth, neu a ddylent adlewyrchu portffolios Gweinidogol. Efallai y bydd Fforwm y Cadeiryddion am ystyried i ba raddau y dylai strwythurau pwyllgorau'r Senedd gael eu pennu gan benderfyniadau'r Prif Weinidog.

19. Mae'r Rheolau Sefydlog yn rhoi hyblygrwydd i'r Senedd benderfynu sut y mae'n dwyn y llywodraeth i gyfrif, gan gynnwys sut y mae am ddelio â materion sy'n effeithio ar sawl portffolio Gweinidogol a synergeddau rhwng gwahanol feysydd polisi. Mae hyblygrwydd hefyd yn y Rheolau Sefydlog i alluogi addasu cylchoedd gwaith pwyllgorau pe bai'r Senedd yn ystyried bod hyn yn angenrheidiol yn dilyn newidiadau Gweinidogol.

20. Fel y nodwyd yn ymgynghoriad Fforwm y Cadeiryddion, mantais i'r model pwyllgorau polisi a deddfwriaeth ar y cyd yw ei fod yn caniatáu i Aelodau ddatblygu arbenigedd polisi sy'n berthnasol i ddeddfwriaeth, a thrwy hynny wella a galluogi craffu mwy cynhwysfawr a gwybodus. Mewn rhai achosion, mae craffu ar bolisi wedi deillio'n uniongyrchol o faterion a godwyd yn ystod craffu deddfwriaethol.

21. Fodd bynnag, yn dibynnu pryd y daw deddfwriaeth gerbron pwyllgor, gall gael effaith ar ei allu i ymgymryd â chraffu ar bolisi. Efallai na fydd gan bwyllgor sy'n ystyried nifer o Filiau y capasiti i ymgymryd ag unrhyw waith craffu ar bolisi. Rhaid blaenoriaethu craffu ar Filiau neu Gynigion Cydsyniad Deddfwriaethol oherwydd terfynau amser ar gyfer adrodd, a all leihau hyblygrwydd Pwyllgor i ymgymryd â gwaith arall. Mae'n bosibl y bydd problemau capasiti o'r fath yn cynyddu wrth i'r Senedd symud i dymhorau pedair blynedd, gyda Llywodraeth Cymru o bosibl yn gwneud y mwyaf o dymor cyfan y Senedd i gyflawni ei rhaglen ddeddfwriaethol.

22. Gellid nodi bod dull hybrid wedi'i ddefnyddio'n rhannol yn ystod y bumed Senedd, gan ddefnyddio pwyllgorau polisi a deddfwriaeth ar y cyd, ond hefyd y Pwyllgor Materion

---

[4] Llywodraeth Cymru, Deddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) 2024, Memorandwm Esboniadol, paragraff 60, **SCME Bill Explanatory Memorandum - Post Stage 4 - Cymraeg -FINAL for publication.pdf**.

Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol. Rhan o rôl y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol oedd "[c]raffu ar ddeddfwriaeth, mewn unrhyw faes pwnc a gyfeirir ato gan y Pwyllgor Busnes, os nad oes digon o gapasiti i graffu ar y ddeddfwriaeth honno o fewn strwythur presennol y pwyllgorau."[5]

23. Mae cylchoedd gwaith trawsbynciol yn golygu rhai heriau ymarferol. Er enghraifft, ar ôl i Fil y Gymraeg ac Addysg (Cymru) gael ei anfon at y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, gwahoddodd Cadeirydd y Pwyllgor hwnnw ddau Aelod o'r Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol o dan Reol Sefydlog 17.49 i gymryd rhan yng nghraffu'r Pwyllgor Plant ar y Bil, ac ystyriodd y byddai cyfranogiad Aelodau'r Pwyllgor Diwylliant yn fuddiol yn hynny o beth. Fodd bynnag, roedd logisteg trefniadau o'r fath yn gymhleth gan fod gan y ddau bwyllgor yr un slot cyfarfod.

24. Yn yr un modd, fodd bynnag, byddai heriau ymarferol o ran adlewyrchu portffolios Gweinidogol. Ar adegau pan fyddai Prif Weinidog yn penderfynu newid rolau a chyfrifoldebau gweinidogol, byddai adlewyrchiad y pwyllgorau yn hynny o beth naill ai'n amherthnasol bellach, neu byddai angen diwygio cylchoedd gwaith pwyllgorau, a fyddai'n effeithio ar barhad busnes y pwyllgorau.

25. O ran cynllunio adnoddau'r Comisiwn, fel y nodwyd yn flaenorol, os yw sawl pwyllgor yn ystyried gwahanol elfennau mewn maes polisi tebyg ar yr un pryd, gall hyn greu pwysau ar gapasiti swyddogion Comisiwn y Senedd o ran darparu arbenigedd a chymorth. I'r gwrthwyneb, gall cydweithio wedi'i gynllunio sy'n gydweithredol ddarparu capasiti ychwanegol i graffu ar faterion trawsbynciol, gan gynnwys staff y Comisiwn yn gweithio'n hyblyg ar draws pwyllgorau. Fel y nodwyd yn flaenorol, mae hyn yn gwneud cynllunio hirdymor o werth sylweddol i Gomisiwn y Senedd wrth reoli a chynllunio ei gefnogaeth i bwyllgorau.

[5] Y Pwyllgor Busnes, Adroddiad y Pwyllgor Busnes ar adolygu cylch gwaith y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol, **CLA5-04-16 - Papur 15.pdf**

**Byddai'r Fforwm yn croesawu barn ar sut mae pwyllgorau wedi'u cyfansoddi, megis maint y pwyllgorau, yr aelodaeth, a'r ffordd y mae Cadeiryddion ac aelodaeth y pwyllgorau yn cael eu dyrannu.**

26. Yn hanesyddol, roedd Deddf Llywodraeth Cymru 2006 yn cynnwys darpariaethau penodol mewn perthynas ag aelodaeth pwyllgorau. Roedd adran 29(2)(a) yn ei gwneud yn ofynnol, i'r graddau y bo hynny'n rhesymol ymarferol, bod aelodaeth pob Pwyllgor yn adlewyrchu cydbwysedd gwleidyddol cyffredinol Cynulliad Cenedlaethol Cymru (ar y pryd). Diddymwyd y cyfyngiad hwn gan Ddeddf Cymru 2017, sy'n golygu y gallai'r Senedd benderfynu drosto'i hun unrhyw egwyddorion a ddylai lywodraethu strwythurau pwyllgorau, a chafodd fwy o hyblygrwydd ynghylch maint a chyfansoddiad pwyllgorau.

27. Mae maint y pwyllgorau ym mhob Senedd yn cael ei ddylanwadu gan y cydbwysedd gwleidyddol o fewn y Senedd, yn enwedig meintiau priodol y grwpiau gwleidyddol. Nid oes maint 'cywir' pendant ar gyfer pwyllgor. Fodd bynnag, mae pwyllgorau o bedwar Aelod wedi wynebu heriau logistaidd penodol, o ran cworwm ac o ran eu gallu i gynnal digwyddiadau allanol. Os bydd un Aelod yn unig o bwyllgor pedwar person yn absennol am gyfnodau hir (e.e. oherwydd salwch), mae hynny'n debygol o effeithio ar allu'r pwyllgor i gynnal gwaith ymgysylltu allanol. Ar bwyllgorau mwy, efallai y bydd Aelodau hefyd yn gallu arwain ar ddarnau penodol o waith, ac efallai y bydd cyfleoedd ar gyfer rapporteurs a gwahanol ffyrdd o weithio sy'n hwyluso cyfranogiad dan arweiniad Aelodau.

28. Fel y nodwyd yn ymgynghoriad Fforwm y Cadeiryddion, mae'r Chweched Senedd wedi defnyddio pwyllgorau llai nag mewn Seneddau blaenorol, gyda nifer o bwyllgorau gyda phedwar a phump Aelod. Er mai dim ond un pwyllgor sydd wedi'i ddatgan yn anghworwm yn ystod y Chweched Senedd, dim ond drwy ohirio amseroedd cychwyn weithiau, ac ail-drefnu busnes yn rhagweithiol i osgoi problemau cworwm y gwnaed hyn.

29. Mae sefydlogrwydd aelodaeth, yn enwedig ar bwyllgor llai, hefyd yn ffactor allweddol wrth hwyluso effeithiolrwydd pwyllgor, gan y gall trosiant herio parhad, amharu ar ddatblygiad arbenigedd polisi, a golygu bod angen amser i Aelodau newydd gymathu gwybodaeth friffio a chael y wybodaeth ddiweddaraf. Yn dilyn newidiadau sylweddol yn yr aelodaeth, mae pwyllgorau wedi defnyddio sesiynau cynllunio strategol ychwanegol.

30. Mae'n werth nodi bod y Pwyllgor Safonau Ymddygiad yn chwarae rhan nodedig wrth gynnal y safonau ac ymddiriedaeth y cyhoedd yn y Senedd. Mae parhad aelodaeth yn galluogi Aelodau i ddatblygu profiad gwerthfawr dros gyfnod sydd yn ei dro yn cefnogi eu proses gwneud penderfyniadau gwybodus ac ystyriol wrth fynd i'r afael â chwynion cymhleth neu sensitif.

31. Wrth ystyried newidiadau posibl i faint pwyllgorau, yn 2017 nododd y Panel Arbenigol ar gyfer Diwygio'r Cynulliad:

32. “Nid ein rôl ni yw rhagnodi sut y dylai'r Cynulliad ei strwythuro ei hun, boed hynny o ran y pwyllgorau y mae'n eu sefydlu, neu'r deiliaid swyddi y mae'n eu penodi. Fodd bynnag, mae'n eglur i ni, oni fydd y Cynulliad yn ffrwyno'i hun—er enghraifft mewn perthynas â maint Llywodraeth Cymru, nifer y pwyllgorau a maint y pwyllgorau—mae’n bosibl na fydd y capasiti ychwanegol a'r manteision a fydd yn deillio o hynny ar gyfer ansawdd a swm y gwaith craffu yn cael eu gwireddu, a bydd y rhesymeg sy'n sail i'n hargymhellion gryn dipyn yn wannach.”[6]

33. Fel y cyfeiriwyd ato yn ymgynghoriad Fforwm y Cadeiryddion, mae Comisiwn y Senedd wrthi'n cynnal adolygiad Seneddol sy’n Gynhwysol ac yn Ystyriol o Deuluoedd. Gan weithio gydag Aelodau, staff ac academyddion, mae'r adolygiad yn cwmpasu ystod eang o faterion. Mae hyn yn cynnwys cynrychiolaeth a chyfranogiad, arferion a diwylliant, ymgysylltu â’r cyhoedd, ac allbynnau (deddfu a goruchwylio/craffu). Mae tîm o academyddion annibynnol yn cynnal yr adolygiad, dan oruchwyliaeth Bwrdd trawsbleidiol, dan arweiniad Joyce Watson AS. Mae'r adolygiad mewn cyfnod cymharol gynnar, ac ar hyn o bryd mae'n casglu data meintiol am y Senedd (enghreifftiau yn Atodiad 3), ac yn dechrau adeiladu data ansoddol. Disgwylir y bydd adroddiad ar Adolygiad Seneddol sy’n Gynhwysol ac yn Ystyriol o Deuluoedd yn cael ei gyhoeddi yn y flwyddyn newydd, a gellir ei ddarparu i Fforwm y Cadeiryddion.

**Hoffai'r Fforwm glywed barn ar eich profiadau o fynychu cyfarfodydd pwyllgorau a rhyngweithio â hwy, gan gynnwys materion fel gweithio mewn modd hybrid a'r gallu i ymgysylltu â gwaith y Senedd yn eich dewis iaith.**

34. Nod y Cynllun Ieithoedd Swyddogol yw sicrhau bod Aelodau o’r Senedd a’u staff cymorth yn rhydd i wneud eu gwaith yn eu dewis iaith swyddogol. Mae'r gallu i ymgysylltu yn yr iaith o ddewis yn ystod gwaith craffu yn hanfodol. Wrth fodloni gofynion y Cynllun Ieithoedd Swyddogol, bydd Comisiwn y Senedd yn darparu gwasanaethau i Aelodau a’u staff cymorth yn ddiofyn yn eu dewis iaith, a bydd yn chwilio'n barhaus am ffyrdd o wella'r ddarpariaeth a rhoi gwybod i dystion cyn cyfarfodydd bod pwyllgorau yn gweithredu’n ddwyieithog.

35. Mae adroddiad blynyddol y Cynllun Ieithoedd Swyddogol ar gyfer 2024-25 yn nodi bod 9% o gyfraniadau i drafodion y Pwyllgor yn Gymraeg, tra bod y ganran ar gyfer trafodion y Cyfarfod Llawn yn 29%. Yn ystod dadl ar yr un adroddiad, nododd un Aelod fod technoleg yn rhwystr posibl i gyfrannu yn Gymraeg mewn pwyllgor. Mae’r adran Cyfieithu a Chofnodi yn parhau i fod ymwybodol o ddatblygiadau mewn technoleg iaith gan gynnwys systemau cyfieithu ar y pryd. Mae hyn yn cynnwys drwy fod yn aelod o gyrff proffesiynol fel

[6] Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad, Senedd sy’n Gweithio i Gymru, paragraff 8.34, **SENEDD SY'N GWEITHIO I GYMRU**

Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru a chysylltiadau mewn sefydliadau eraill fel Sefydliad Siartredig yr Ieithyddion a Chymdeithas Cyfieithwyr yr Heddlu a'r Llysoedd.

36. Aeth y Comisiynydd sydd â chyfrifoldeb am y Cynllun Ieithoedd Swyddogol i Fforwm y Cadeiryddion ym mis Gorffennaf 2024 i drafod sut i gefnogi a chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg mewn pwyllgorau, gan gynnwys y rôl y gall Cadeiryddion ei chwarae wrth hyrwyddo dwyieithrwydd.

37. Ar ddechrau'r Senedd nesaf, bydd y Comisiwn yn:

- darparu briffs i gadeiryddion pwyllgorau unigol ynghylch arfer da o ran cadeirio cyfarfodydd dwyieithog;
- parhau i ystyried dyraniad staffio pwyllgorau sydd â chadeiryddion dwyieithog neu gadeiryddion sy'n datgan yn benodol eu bod am weithio drwy gyfrwng y Gymraeg.

38. Mae Comisiwn y Senedd yn bwriadu casglu rhagor o adborth, barn a lefelau boddhad gan Aelodau a'u staff cymorth ynghylch y Cynllun Ieithoedd Swyddogol drwy arolwg dros e-bost yn ystod mis Tachwedd – Rhagfyr 2025.

39. O ran hygyrchedd gwaith pwyllgorau, efallai y bydd Fforwm y Cadeiryddion am ystyried canllawiau arfer da mewn perthynas â hygyrchedd adroddiadau. O ran adroddiadau, mae fformatau hawdd eu darllen a fformatau hygyrch eraill yn galluogi'r Comisiwn i gyflawni ei gyfrifoldebau cydraddoldeb a chynhwysiant, fodd bynnag, gall ystyriaethau fel hyd ac iaith unrhyw adroddiad ei wneud yn fwy hawdd ei ddefnyddio a helpu wrth ymgysylltu â'r cyhoedd.

40. Efallai y bydd Fforwm y Cadeiryddion hefyd am ystyried a ellid gwneud unrhyw welliannau i Reol Sefydlog 17.42 sy'n galluogi pwyllgorau i gyfarfod yn breifat, er mwyn rhoi mwy o eglurder i'r cyhoedd sy'n dilyn y trafodion.

41. Fel y nodwyd uchod, mae'r Comisiwn hefyd yn destun craffu cadarn, croesawgar gan bwyllgorau. O fewn y Comisiwn, mae ffiniau'r rolau priodol y mae ein staff yn eu cyflawni (staff sy'n cefnogi gyda swyddogaeth graffu, a staff sy'n cefnogi'r Comisiwn i ddarparu tystiolaeth) yn cael eu parchu.

**Byddai'r Fforwm hefyd yn croesawu enghreifftiau o graffu neu waith pwyllgor yr ydych yn ystyried sydd wedi bod yn effeithiol neu nad oedd mor effeithiol ac unrhyw awgrymiadau o ran sut y gellid gwella effeithiolrwydd.**

42. Mae nifer o Gomisiynau blaenorol ac adolygiadau wedi ystyried effeithiolrwydd pwyllgorau'r Senedd. Yn 2004, argymhellodd Comisiwn Richard y dylai Aelodau eistedd ar un pwyllgor pwnc mawr yn unig er mwyn datblygu arbenigedd pwnc a hwyluso gwell craffu. Yn yr un modd, mewn tystiolaeth i'r Panel Arbenigol ar Ddiwygio'r Cynulliad yn 2017,

dywedodd yr Arglwydd Llys-faen fod bod yn aelod o fwy nag un pwyllgor yn gwanhau ymdrech a gwybodaeth ac yn lleihau effeithiolrwydd.[7]

43. Ym mis Mai 2021, nododd yr Athro Diana Strubi ystod o amodau ar gyfer Pwyllgorau effeithiol, gan gynnwys:
    - Symleiddio a chryfhau llinellau atebolrwydd;
    - Sicrhau sefydlogrwydd o ran aelodaeth pwyllgorau;
    - Rhagor o arbrofi gyda dulliau amrywiol o ehangu lefelau cyfranogiad ac ymgysylltu;
    - Sicrhau bod profiad byw yn ganolog i ddull pwyllgorau o ymdrin â thystiolaeth;
    - Sicrhau bod monitro amrywiaeth yn arfer cyffredin;
    - Gofyn am adborth ffurfiol rheolaidd gan y rhai sy'n cymryd rhan yng ngwaith pwyllgorau, boed yn ffurfiol neu'n anffurfiol; a
    - Defnyddio'r ystod lawn o bwerau pwyllgorau i fynnu gwelliant gan Lywodraeth Cymru.[8]

44. Mae’r pwyllgorau wedi defnyddio amrywiaeth o ddulliau casglu tystiolaeth mewn modd hyblyg, gan gynnwys defnyddio dadansoddiadau empirig; cysylltiadau cryfach ag academyddion drwy Uned Cyfnewid Gwybodaeth Ymchwil y Senedd a datblygu Meysydd Diddordeb Ymchwil y pwyllgorau i bynciau penodol y creffir arnynt; ymweliadau safle a chydweithio ar draws bwyllgorau.

45. Mae Comisiwn y Senedd hefyd yn ystyried ac yn treialu sut y gall offer a thechnolegau newydd, fel Deallusrwydd Artiffisial, gyfrannu at effeithiolrwydd pwyllgorau, a'r risgiau a'r heriau a all godi o hynny.

46. Er nad yw’n ddyletswydd ar y Comisiwn wneud sylwadau ar ganlyniadau gwleidyddol gwaith craffu, dyma enghreifftiau penodol o ble mae swyddogion y Comisiwn wedi hwyluso gwahanol ffyrdd o weithio sydd wedi cyfrannu at graffu effeithiol:

    - Gwaith y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus ar God Gweinidogol Llywodraeth Cymru, gan ei fod yn cynnwys ymgysylltiad adeiladol â Llywodraeth Cymru, gan gynnwys ar lefel swyddogion, ac wedi arwain at allbwn pendant (gweithredodd y Prif Weinidog awgrymiadau'r Pwyllgor yn y cod diwygiedig).

    - Ymchwiliad y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol i doriadau cyllid ar gyfer chwaraeon a diwylliant, lle cynhaliodd Ymchwil y Senedd ddadansoddiad empirig yn dangos bod Cymru ymhlith yr isaf yn Ewrop o ran cyllid y pen. Roedd y dystiolaeth hon yn cryfhau gwaith craffu a gwnaed mwy o gyllid yn y gyllideb ddrafft.

---

[7] Tystiolaeth ysgrifenedig, yr Arglwydd Llys-faen, ep03-lord-lisvane.docx

[8] Pŵer, Dylanwad ac Effaith Pwyllgorau’r Senedd, Yr Athro Diana Stirbu, A1-A7, gen-ld14672-w.pdf

- Gwaith y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai ar ddarparu safleoedd i Sipsiwn a Theithwyr, lle bu'r Pwyllgor yn ymgysylltu'n uniongyrchol â chymuned ymylol drwy ddulliau casglu tystiolaeth hyblyg, ac ymweliadau â safleoedd.

- Dull newydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg o graffu ar y gwaith o weithredu deddfwriaeth addysg allweddol a basiwyd yn y Bumed Senedd (Deddf ADY, a Deddf y Cwricwlwm), gyda 'chyfnodau monitro' rheolaidd sy'n cynnwys gwthio ymgynghoriadau, ymweliadau ag ysgolion, sesiynau tystiolaeth lafar gyda rhanddeiliaid, ac ymgysylltu â'r gweinidog Llywodraeth berthnasol.

- Defnyddio amrywiol offer ar gyfer ymgysylltu ag amrywiaeth eang o randdeiliaid a chasglu tystiolaeth. Er enghraifft, wrth ystyried canserau gynaecolegol, defnyddiodd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol dystiolaeth fideo, a oedd yn arbennig o effeithiol wrth ymgysylltu â rhanddeiliaid. Yn yr un modd, mae'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai wedi cefnogi arferion cynhwysol yn ystod sesiynau tystiolaeth ffurfiol gan gynnwys galluogi tyst dieiriau i gyfrannu trwy sgwrs Zoom.

- Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn sefydlu Panel Cynghori Ar-lein ar ei waith yn edrych a oes gan blant a phobl ifanc anabl fynediad cyfartal at addysg a gofal plant. Roedd y grŵp hwn yn cynnwys rhieni, gofalwyr a phobl ifanc a lywiodd gamau olaf yr ymchwiliad yn uniongyrchol, gan gynnwys: cwestiynau i dri Gweinidog Llywodraeth Cymru; nodi materion allweddol; awgrymu argymhellion posibl, a rhoi adborth ar ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad.

- Cydweithio trawsbwyllgorau, fel y gwelwyd yn y gwaith craffu ar y cyd ar yr Adolygiad o'r Cytundeb Masnach a Chydweithrediad gan bedwar pwyllgor o'r Senedd.

- Cyhoeddi gwybodaeth mewn ffordd sy'n gwella hygyrchedd ac ymgysylltiad â'r cyhoedd. Er enghraifft, mae'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol wedi cyhoeddi cynnwys mewn fformatau hawdd eu darllen, ymgynghoriadau Iaith Arwyddion Prydain, a fersiynau cryno o adroddiadau, yn aml mewn ymateb i anghenion a nodwyd gan y gynulleidfa. Mae'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg hefyd wedi cyhoeddi cynnwys mewn gwahanol fformatau, gan gynnwys fideo.

47. Mae mesurau penodol hefyd wedi'u cymryd gan bwyllgorau unigol i hwyluso naws a deinameg cyfarfodydd. Er enghraifft, mae'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus wedi cynnal cyfarfodydd rhagarweiniol wythnosol brynhawn Llun i dderbyn briffiau gan Archwilio Cymru a/neu Wasanaeth Ymchwil y Senedd, gan alluogi Aelodau i ofyn cwestiynau cyn eu cyfarfod pwyllgor a datblygu

gwell dealltwriaeth o bynciau. Roedd yr aelodau hefyd yn gallu dyrannu cwestiynau, ffurfio deinameg y tu allan i gyfarfodydd pwyllgor ffurfiol, a chydweithio i holi tystion.

48. O ran cynllunio strategol, gosododd sesiynau cynllunio strategol cychwynnol y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai a'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol gyfeiriad strategol ar gyfer y Chweched Senedd, gan sicrhau bod yr holl ymchwiliadau polisi dilynol yn cyd-fynd â'r blaenoriaethau y cytunwyd arnynt. Yn yr un modd, mae'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg wedi parhau i ddefnyddio'r blaenoriaethau strategol i brofi yn erbyn pob ymchwiliad posibl yn y dyfodol, gyda swyddogion yn defnyddio templed i wneud hyn, sydd wedyn yn rhan o bapurau'r Pwyllgor.

49. Mae sesiynau craffu pwyllgorau ar y cyd wedi cael eu cynnal yn ystod y tymor hwn, fodd bynnag, gall cyfyngiadau ymarferol effeithio'n sylweddol ar eu gallu i wneud hynny. Er enghraifft, cafodd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol anawsterau wrth graffu ar Fil y Gymraeg ac Addysg, gydag amserlen y pwyllgor yn rhwystr i graffu effeithiol. Roedd y Pwyllgor arweiniol yn cyfarfod ar yr un pryd â’r Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol, gan greu rhwystrau i aelodau’r Pwyllgor hwnnw fanteisio ar y cyfle i ymuno â'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.

50. O’i safbwynt ei hun fel un sy’n destun gwaith craffu gan bwyllgorau, mae swyddogion Comisiwn y Senedd wedi ei chael hi'n fuddiol darparu gwybodaeth fanwl i bwyllgorau ymlaen llaw (e.e. Biliau, penderfyniadau cyllidebol, ac ati) er mwyn rhoi dealltwriaeth a chyd-destun i'r Aelodau er mwyn cyfeirio eu gwaith craffu. Mae darparu gwybodaeth o’r fath ynddo'i hun yn dod â goblygiadau o ran adnoddau, a gallai Fforwm y Cadeiryddion ystyried o bosibl a ellid gwneud unrhyw effeithlonrwydd mewn perthynas â cheisiadau pwyllgorau am nodiadau ysgrifenedig neu ddata a gyflwynir mewn modd penodol.

51. Yn olaf, mae’n werth nodi bod Fforwm y Cadeiryddion yn fforwm anffurfiol, ac nad yw'n ofynnol yn y Rheolau Sefydlog. Fodd bynnag, mae wedi profi ei werth yn ystod y Senedd hon, wrth sefydlu arfer cyson, gan alluogi llais i bwyllgorau ymgysylltu â Llywodraeth Cymru ar y cyd. Mae ganddo rôl werthfawr i'w chwarae wrth gynnal safonau cyson ar draws pwyllgorau, a rhannu arfer da (neu gefnogaeth gan gymheiriaid) i gefnogi diwylliant pwyllgor cadarnhaol yn y Senedd. Mae hefyd yn fforwm defnyddiol i Gomisiwn y Senedd (a'r Pwyllgor Busnes) drafod materion o ddiddordeb gweithdrefnol neu ymarferol cyffredin i bob pwyllgor: er enghraifft, cefnogaeth y Comisiwn i bwyllgorau mewn perthynas â chyfathrebu a chysylltiad cyhoeddus, a defnyddio’r Gymraeg, cefnogaeth y Gwasanaeth Ymchwil, ac wrth gynnal goruchwyliaeth o faterion amrywiaeth a chynhwysiant ac ymgysylltu diweddar ar yr adolygiad deddfwriaethol. Efallai y bydd Fforwm y Cadeiryddion am ystyried a ddylai fod yn Fforwm gofynnol yn y Rheolau Sefydlog.

**Atodiad 2: Cyfrifoldebau allweddol cadeiryddion y pwyllgorau**

- Pennu cyfeiriad strategol y pwyllgor a sicrhau bod blaenoriaethau tryloyw i'w weithgareddau er mwyn gwireddu rhaglen gytbwys, gynhwysfawr ac effeithiol o waith craffu ar ddeddfau, polisïau a chyllid;

- Codi perthnasedd a dylanwad y pwyllgor i'r eithaf gan gadw ei annibyniaeth bendant oddi wrth Lywodraeth Cymru;

- Gweithredu'n ddiduedd bob amser, yn bendant, yn deg ac mewn modd sy'n ennyn hyder y pwyllgor;

- Ennyn hyder Aelodau, tystion a'r cyhoedd yn gyffredinol drwy feistroli'r pwnc sydd o dan sylw yng nghylch gwaith y pwyllgor; dangos technegau effeithiol mewn gwaith craffu ar ddeddfau, polisïau a chyllid; cadw trefn; a chymhwyso'r holl ofynion cyfreithiol a gweithdrefnol sy'n berthnasol i'r pwyllgor;

- Sicrhau ymroddiad ac ymrwymiad pob aelod o'r pwyllgor a meithrin consensws ar draws y pleidiau pryd bynnag y bo modd;

- Adeiladu'r amrywiaeth o ddiwylliant a sgiliau yn y pwyllgor sy'n angenrheidiol i'w wneud mor effeithiol â phosibl fel corff sy'n gwneud gwaith craffu;

- Sicrhau bod y pwyllgor yn cael y cyngor arbenigol, y wybodaeth a'r cymorth arall y mae arno ei angen i gyflawni ei amcanion yn effeithiol;

- Sbarduno pob agwedd ar waith y pwyllgor gan sicrhau y caiff ei gyflawni'n gyflym ac i safon uchel;

- Cynrychioli'r pwyllgor yn gyhoeddus, yn y cyfryngau ac o ran busnes ffurfiol y Senedd; a

- Sicrhau bod gwaith y pwyllgor yn cael ei ddadansoddi a'i gloriannu'n feirniadol gan sbarduno arloesedd yn ei waith er mwyn cynyddu ei effeithiolrwydd, ei ymgysylltiad cyhoeddus a'i effaith.

**Atodiad 3: Data meintiol a gasglwyd i lywio Adolygiad Seneddol sy'n Gynhwysol ac yn Ystyriol o Deuluoedd**

1. Casglwyd data arsylladwy sy'n dangos, o 7 Hydref 2026, bod gan Bwyllgorau'r Senedd y cydbwysedd rhywedd a ganlyn:

| | Menyw | Gwryw |
|---|---|---|
| Plant, Pobl Ifanc ac Addysg | 50% | 50% |
| Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith | 83% | 17% |
| Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol | 33% | 67% |
| Economi, Masnach a Materion Gwledig | 33% | 67% |
| Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol | 67% | 33% |
| Cyllid | 25% | 75% |

| | | |
|---|---|---|
| Iechyd a Gofal Cymdeithasol | 33% | 67% |
| Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad | 0% | 100% |
| Llywodraeth Leol a Thai | 33% | 67% |
| Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus | 20% | 80% |

2. Fodd bynnag, hyd yma, nid yw'r gronfa ddata o arwyddocâd ystadegol digonol i ddod i unrhyw gasgliadau.

3. Bydd ystyriaeth hefyd yn cael ei rhoi yn yr adolygiad i fonitro amrywiaeth tystiolaeth a gynhaliwyd yn flaenorol gan Gomisiwn y Senedd. Er enghraifft, mewn ymatebion i arolwg gwirfoddol dienw a anfonwyd at bobl a roddodd dystiolaeth lafar, a gyflwynodd dystiolaeth ysgrifenedig i ymgynghoriad pwyllgor, neu a gymerodd ran mewn gweithgaredd ymgysylltu anffurfiol a gomisiynwyd gan bwyllgor, rhwng 26 Medi 2022 a 30 Ebrill 2023,[9] nodwyd y rhywiau a ganlyn o ran cyfranwyr tystiolaeth:

| | Menyw | Gwryw | Gwell gen i beidio â dweud |
|---|---|---|---|
| Plant, Pobl Ifanc ac Addysg | 71% | 29 y cant | 0% |

[9] At ei gilydd, daeth 369 o ymatebion i law; cyfradd ymateb gyffredinol o 41 y cant. Comisiwn y Senedd, Monitro Amrywiaeth Tystiolaeth Peilot 2: canfyddiadau manwl, Rhagfyr 2023, tudalennau 87-88.

| | | | |
|---|---|---|---|
| Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith | 27% | 73% | 0% |
| Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol | 42% | 58% | 0% |
| Economi, Masnach a Materion Gwledig | 31% | 69% | 0% |
| Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol | 70% | 30% | 0% |
| Cyllid | 64% | 36 y cant | 0% |
| Iechyd a Gofal Cymdeithasol | 74% | 26 y cant | 0% |
| Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad | 31% | 69% | 0% |
| Llywodraeth Leol a Thai | 57% | 40-45% | 0-5% |
| Cyfrifon Cyhoeddus a | 33% | 67% | 0% |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Gweinyddiaeth Gyhoeddus | | | |
| Ddim yn siŵr | 80% | 20% | 0% |